Teitl adroddiad thematig: *Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Gorffennaf 2011*

Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Ysgol Gynradd Llysweri: dull ar gyfer yr ysgol gyfan o gefnogi dysgwyr sydd o dan anfantais

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llysweri mewn ardal led-ddiwydiannol ychydig dros filltir i'r de-ddwyrain o ganol Casnewydd. Mae 524 o ddysgwyr amser llawn yn yr ysgol. Maent yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd teuluol ac mae oddeutu 25% o'r dysgwyr yn cael hawlio prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Mae'r ysgol yn defnyddio sawl strategaeth sy'n gysylltiedig â'i gilydd ar draws yr ysgol i fynd i'r afael â thangyflawniad ei dysgwyr sydd o dan anfantais, fel y dangosir isod.

Camau gweithredu

Nodi ac olrhain tangyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais

Defnyddiodd yr ysgol arian Rhagori i ddatblygu system olrhain a monitro asesu. Mae'r system wedi llwyddo i nodi dysgwyr sydd o dan anfantais sy'n tangyflawni a gwella eu cyflawniad. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd dysgwyr unigol, grwpiau a dosbarthiadau. Mae hyn yn galluogi'r uwch dîm arwain i ddadansoddi'r data er mwyn (a) ystyried effaith dysgu ac addysgu a (b) monitro addysgu. Mae'r ail weithgaredd yn gysylltiedig â rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i sicrhau bod athrawon yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i addysgu yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae'r uwch dîm hefyd yn dadansoddi setiau data eraill i lywio'r system olrhain a'r broses pennu targedau. Defnyddir data'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysgol (SCYA) i ddadansoddi cynnydd y dysgwyr ym meysydd llythrennedd a rhifedd i dynnu sylw at nodweddion da a diffygion dysgu ac addysgu. Defnyddir gwybodaeth o Brofion Gallu Gwybyddol (PGG) a gynhelir ym Mlwyddyn 4 i lywio'r targedau a bennir.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, rhoddir y wybodaeth i'r athro/athrawes dan sylw i lywio cynlluniau a phennu targedau ar gyfer pob disgybl. Rhoddir targedau ymarferol a heriol i'r dysgwyr ac mae cyflawniad pob plentyn tuag at fodloni'r targedau hyn yn cael ei olrhain.

Defnyddir y broses o olrhain a phennu targedau i grwpio dysgwyr yn effeithiol yn ôl eu hanghenion dysgu. Mae'r ysgol yn ddigon hyblyg i alluogi dysgwyr i symud rhwng grwpiau os yw hyn o fwy o les i'w dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio dadansoddiad o'r data i lywio eu cynlluniau. Maent yn edrych yn ofalus iawn ar sut caiff llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl eu dysgu a'u haddysgu i sicrhau bod parhad drwy'r ysgol.

Dull ysgol-gyfan ar gyfer darllen

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer darllen dan arweiniad. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi am y dull ac fe hyfforddir dysgwyr hŷn er mwyn iddynt allu cefnogi dysgwyr iau i ddarllen. Mae'r cysondeb hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen y dysgwyr.

Pwyslais cryf ar hyfforddiant staff

Mae 'dull ymchwil' ar gyfer strategaethau gwella lle caiff pob cynllun ei beilota, ei fonitro a'i werthuso cyn cael ei gyflwyno i'r ysgol gyfan.

Mae arwain a/neu weithredu cynlluniau newydd yn rhan o dargedau rheoli perfformiad athrawon gan sicrhau bod yr holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fynd i'r afael ag anfantais.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar athrawon yn cydweithio i wella eu harfer. Mae athrawon yn defnyddio deilliannau prosesau olrhain disgyblion i rannu syniadau a chyd-gynllunio mewn timau yn y cyfnod Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).

Mae'r uwch dîm yn cydweithio i ddatblygu arfer arloesol. Maent yn dangos elfennau newydd o arfer i staff, er enghraifft drwy addysgu 'gwersi arddangos' gydag athro/athrawes y dosbarth yn gwylio. Mae gan athro/athrawes y dosbarth amser penodol i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu ac mae aelod o'r uwch-dîm yn eu gwylio eto i roi adborth a chymorth. Mae'r uwch dîm yn monitro cynllunio ac yn casglu enghreifftiau o arfer dda i'w rhannu ymysg y staff.

Gwella lles emosiynol dysgwyr drwy SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu)

Mae'r ysgol wedi nodi bod angen i lawer o'u dysgwyr sydd o dan anfantais ddatblygu eu lles emosiynol. Cyflwynodd y dirprwy bennaeth Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) ar gyfer yr ysgol gyfan i gefnogi'r dysgwyr hyn.

Gyda chymorth yr awdurdod lleol, hyfforddir yr holl staff am ddulliau SEAL a strategaethau penodol fel 'amser cylch' a 'stopio, meddwl, gwneud'. Mae gweithgareddau SEAL yn rhan o raglen dreigl dwy flynedd o addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol er mwyn i bob dysgwyr gael profiad o SEAL.

Defnyddiwyd arian Rhagori hefyd i dalu am grwpiau ar wahân ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n arbennig o agored i niwed ac o dan anfantais a fyddai'n elwa fwyaf ar waith SEAL. Dewisir grwpiau bychain o ddysgwyr ar gyfer y gefnogaeth hon ac fe'u nodir drwy ddefnyddio prawf deallusrwydd emosiynol SCYA. Caiff y dysgwyr eu grwpio wedyn yn unol â'u hangen, er enghraifft medrau cymdeithasol, rheoli tymer, a hunan-barch. Gweithiodd yr

athrawon gyda'r dysgwyr hyn gan ddefnyddio'r deunydd SEAL ychwanegol yn ogystal â chyfleusterau'r ysgol fel yr Ysgol Goedwig. Mae gan yr ysgol 'Ystafell Gyfeillgarwch' benodedig hefyd sydd wedi'i dylunio a'i haddurno gan ddysgwyr i fod yn 'noddfa' i ddysgwyr pan maent yn teimlo'n agored i niwed.

Caiff dysgwyr eu hailasesu ar ddiwedd y cyfnod yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA i weld a ydynt wedi gwneud cynnydd.

Datblygu medrau arwain dysgwyr

Mae'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain dysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn ysgwyddo cyfrifoldeb am drefnu drama'r ysgol a digwyddiadau a noddir gan yr ysgol. Mae hyn wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar ddysgwyr sydd o dan anfantais ac mae'n cyfrannu'n helaeth at godi eu hunan-barch a'u dyheadau.

Disgyblaeth bendant

Mae strategaeth ysgol-gyfan ar gyfer disgyblaeth bendant sy'n pennu disgwyliadau cyson ar gyfer ymddygiad. Mae dysgwyr sy'n ymddwyn yn wael iawn yn mynd i 'glwb amser cinio' i ystyried eu hymddygiad. Mae clwb amser cinio yn atgyfnerthu'r syniad o ddisgyblaeth gadarnhaol.

Nodweddion da a rhagorol

- Arweinyddiaeth gymelliadol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mynd i'r afael â thlodi ac anfantais.
- Prosesau i sicrhau bod yr holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros wella cyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais.
- Pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol yr holl staff gyda phwyslais ar wella cyflawniad pob dysgwr.
- Defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau sy'n gysylltiedig â'i gilydd i fynd i'r afael ag anfantais, gan gynnwys cyflawniad academaidd, hunan-barch a lles emosiynol.
- Dull ysgol-gyfan ar gyfer addysgu medrau.
- Monitro, dadansoddi ac arfarnu pob strategaeth i asesu eu heffaith ar gyflawniad pob dysgwr.
- Mae dysgwyr yn elwa ar gefnogaeth ar draws yr ysgol ac mae'r holl staff yn ymwybodol o anghenion dysgwyr sydd o dan anfantais.

Deilliannau

Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn rhoi dull ysgol-gyfan sy'n cael effaith sylweddol ar ddysgwyr yn Ysgol Gynradd Llysweri.

- Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd sylweddol ac yn cyflawni canlyniadau ym mhob dangosydd allweddol sy'n gyson yn uwch na'r rhai mewn ysgolion tebyg.
- Dros y pedair blynedd diwethaf, mae o leiaf 88% o'r dysgwyr wedi cyflawni lefel 4 yn

Saesneg. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae nifer y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 5 yn Saesneg yn cynyddu'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2009/10, cyflawnodd 43% o ddysgwyr Blwyddyn 6 o leiaf lefel 5 mewn Saesneg. Mae hyn 15 y cant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a 15 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- Mae'r bwlch yng nghyflawniad dysgwyr sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r dysgwyr eraill yn llawer culach na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mewn ysgolion tebyg.
- Mae'r ysgol wedi dadansoddi'r nifer a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio yn erbyn prawf deallusrwydd emosiynol SCYA a nododd y bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth gymdeithasol a gostyngiad mewn ymddygiad ymosodol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y dysgwyr a gyfeiriwyd at y clwb amser cinio wedi gostwng yn sylweddol.